**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch Gyfrannol/Uwch**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Education**
**Advanced Subsidiary/Advanced**

473/55

# HANES – HI3

## UNED 3

## ASTUDIAETH FANWL 5

## PRYDAIN, tua 1929-1939

P.M. DYDD MERCHER, 7 Mehefin 2006

(1 awr 30 munud)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **un** cwestiwn yn Adran A ac **un** cwestiwn yn Adran B.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau sgwâr ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Dylai'r amser a dreuliwch yn ateb cwestiwn gyfateb i'r marciau sydd ar gael amdano.

Mae'n bosibl fod y ffynonellau a'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

**Atgoffir chi y bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig a ddefnyddir yn eich atebion yn effeithio ar y marciau a roddir.**

## UNED 3

## ASTUDIAETH FANWL 5

## PRYDAIN, tua 1929-1939

*Atebwch* **un** *cwestiwn yn Adran A ac* **un** *cwestiwn yn Adran B.*

### Adran A

*Atebwch* **un** *cwestiwn.*

**1. Newid economaidd a chymdeithasol, 1929-1939**

*Astudiwch y ffynhonnell isod yn ofalus, ac yna atebwch y cwestiynau a seiliwyd arni.*

‘Cafodd effeithiau gwaethaf y dirwasgiad *(slump)* eu teimlo gan bedwar o ddiwydiannau sylfaenol y wlad hon, sef glo, haearn a dur, adeiladu llongau a thecstilau. Nid diweithdra a achoswyd gan amgylchiadau tymhorol yn ôl chwiw a mympwy ffasiwn yw’r diweithdra sydd wedi effeithio ar y diwydiannau hyn, fel y gallai rhai canghennau llai o fyd masnach ei ddweud. Mae tystiolaeth fod trefn gyfalafol cymdeithas wedi torri i lawr ar raddfa enfawr pan fo diwydiannau sylfaenol y gyfundrefn yn cael eu hyrddio i ddirwasgiad parhaol; pan fo glofeydd yn cael eu selio gan adael i ddŵr eu gorlifo; pan fo gweithfeydd dur yn cael eu gadael i rydu a dadfeilio; pan fo cwmnïau arbennig yn cael eu sefydlu i ymgymryd â’r dasg o ddatgymalu a chwalu iardiau llongau; a miliynau lawer o werthydau *(spindles)* gwerthfawr o’r diwydiant tecstilau yn cael eu troi’n fetel sgrap.’

[Wal Hannington, aelod o Blaid Gomiwnyddol Prydain, yn ei bamffled gwleidyddol, *The problem of the distressed areas* (1937)]

*(a)* Eglurwch **yn gryno** ystyr y gair ‘dirwasgiad’ (llinell 1). [4]

*(b)* Beth mae’r ffynhonnell yn ei awgrymu am gyflwr economaidd Prydain? [8]

*(c)* Pa mor ddefnyddiol yw’r ffynhonnell i ddeall y newid economaidd a chymdeithasol a ddigwyddodd rhwng 1929 a 1939? [20]
*(Yn eich ateb, fe’ch cynghorir i ddefnyddio gwybodaeth gefndirol berthnasol yn ogystal â’r wybodaeth a geir yn y ffynhonnell.)*

**2. Newid diwylliannol a thechnolegol, 1929-1939**

*Astudiwch y ffynhonnell isod yn ofalus, ac yna atebwch y cwestiynau a seiliwyd arni.*

'Roedd adloniant yn golygu ymweliad â'r sinema leol, y "*Palace*", y neuadd snwcer (a fyddai bob amser yn llawn o ddynion ifanc di-waith), neuadd y gweithwyr neu ddawnsfa *(ballroom)* yr "*Empress*". Pan na fyddech yn gallu fforddio gwneud yr un o'r pethau hyn, byddai bechgyn a merched yn cyfarfod ar y promenâd lleol, a dyna sut y gwnes i gyfarfod fy ngwraig. Pleser arbennig oedd ymweliad â'r farchnad ym Mhontypridd, ychydig filltiroedd i ffwrdd, ar brynhawn Sadwrn. Roeddwn i'n dal yn llanc yn ystod blynyddoedd y dirwasgiad *(depression)*. Mae'n rhaid i mi gyfaddef nad wyf yn cofio rhyw lawer am streiciau ac anniddigrwydd gwleidyddol y cyfnod. Doedd cyfathrebu'r cyfnod hwnnw ddim yr hyn ydyw heddiw. Byddai pobl yn cadw mewn cysylltiad â'r byd mawr y tu allan trwy'r papur newydd lleol, y radio, a ffilmiau newyddion *(newsreels)* yn y sinema. Ychydig o bobl oedd yn berchen teleffon. Doedd pobl ifanc ddim yn dod i wybod am faterion y byd trwy'r cyfryngau *(the media)*, yn yr un ffordd ag y maent heddiw. Fyddwn i ddim yn dweud ein bod ni'n anhapus mewn unrhyw ffordd. Roedden ni'n ffodus mewn gwirionedd gan ein bod ymhlith yr ychydig deuluoedd oedd ag ystafell ymolchi; roedd y rhan fwyaf o'r glowyr yn defnyddio baddon tun o flaen y tân. Roedden ni'n ffodus hefyd ein bod ni'n gallu fforddio mynd ar wyliau o bryd i'w gilydd, er i mi fod yn ddeunaw oed cyn i mi deithio mwy na 30 milltir o'm cartref.'

[William Thomas, yn ysgrifennu am ei atgofion o fywyd yn y 1930au, mewn pennod o lyfr dan y teitl, *Voices from the Past* (1986)]

*(a)* Eglurwch **yn gryno** ystyr yr ymadrodd 'blynyddoedd y dirwasgiad' (llinell 6). [4]

*(b)* Beth mae'r ffynhonnell yn ei awgrymu am fywyd pobl ifanc ar y pryd? [8]

*(c)* Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynhonnell i ddeall y newid diwylliannol a thechnolegol a ddigwyddodd rhwng 1929 a 1939? [20]
*(Yn eich ateb, fe'ch cynghorir i ddefnyddio gwybodaeth gefndirol berthnasol yn ogystal â'r wybodaeth a geir yn y ffynhonnell.)*

## ADRAN B

*Atebwch* **un** *cwestiwn.*

### 3. Newid gwleidyddol, 1929-1939

*Astudiwch y ffynonellau isod yn ofalus, ac yna atebwch y cwestiynau a seiliwyd arnynt.*

<u>Ffynhonnell A</u>

'Wrth drafod y rhesymau dros sefydlu Llywodraeth Genedlaethol, dywedodd y Prif Weinidog fod yn rhaid cyfaddef bod y cynnig yn groes i bopeth y safai'r Blaid Lafur drosto, ac eto roedd wedi'i argyhoeddi'n llwyr fod hynny'n angenrheidiol, os oedd y wlad i gael ei harbed.'

[Cofnodion swyddogol y Cabinet, a ysgrifennwyd gan ysgrifennydd y Cabinet a'u llofnodi a'u cymeradwyo gan y Prif Weinidog, Ramsay MacDonald (19 Awst 1931)]

<u>Ffynhonnell B</u>

'Mae rhoi i'r gwleidyddion hyn yr enw eu bod yn gweithredu er lles y genedl yn annymunol tu hwnt. Trwy sefydlu Llywodraeth Genedlaethol maent wedi taflu'r di-waith yn ôl ar drugaredd Deddf y Tlodion er mwyn bodloni bancwyr y Ddinas a'u hawydd hwy eu hunain i gadw eu swyddi uchel.'

[Cofnod o ddyddiadur Beatrice Webb, AS o'r Blaid Lafur (23 Medi 1931)]

<u>Ffynhonnell C</u>

'Roedd Undeb Ffasgwyr Prydain yn ceisio troi pobl yn erbyn ei gilydd ac roedden ni'n benderfynol o'u rhwystro. Cyn gynted ag y cyrhaeddodd Moseley Cable Street, aeth bricsen drwy ffenestr ei gar. Aeth y Ffasgwyr i sefyll mewn rhes wrth i ni eu gwawdio, yna rhoesant saliwt i'w harweinydd a gorymdeithio ar hyd y strydoedd gwag. Roedd tyrfa fawr yn sefyll yno, ac roedd eu gwrthwynebiad yn amlwg.'

[Atgofion Phil Piratin, cefnogwr i'r achos Comiwnyddol, yn ei hunangofiant, *Our Flag Stays Red* (1948)]

<u>Ffynhonnell CH</u>

'Yn wyneb methiant y Llywodraeth i weithredu ac ymyrraeth arianwyr y Ddinas a'r elfennau hynny o'r gymdeithas sy'n ymborthi ar *(feed on)* anhrefn a dryswch, rwy'n galw ar etholwyr Prydain i bleidleisio â'u cydwybod a phleidleisio dros yr unig blaid ym Mhrydain sydd â'r sgiliau, y syniadau a'r undod angenrheidiol i weithredu'r mesurau llymion y mae gofyn amdanynt.'

[Oswald Moseley, arweinydd Undeb Ffasgwyr Prydain, mewn araith etholiadol yn ystod rali wleidyddol yn Llundain (1935)]

Ffynhonnell D




[Poster ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol, yn gofyn i'r etholwyr gefnogi'r Llywodraeth Genedlaethol (1931)]

*(a)* Cymharwch Ffynonellau A a B. Sut mae Ffynonellau A a B yn dangos safbwyntiau cyferbyniol am y rhesymau dros sefydlu'r Llywodraeth Genedlaethol? [8]

*(b)* Astudiwch Ffynonellau C ac CH. Pa mor ddibynadwy yw Ffynonellau C ac CH fel tystiolaeth i hanesydd sy'n astudio Undeb Ffasgwyr Prydain? [16]

*(c)* Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynonellau i ddeall newid gwleidyddol, 1929-1939? [24]
*(Yn eich ateb, fe'ch cynghorir i ddefnyddio gwybodaeth gefndirol berthnasol yn ogystal â'r wybodaeth a geir yn y ffynonellau.)*



**Trosodd.**

**4. Polisi tramor Prydain, 1929-1939**

*Astudiwch y ffynonellau isod yn ofalus, ac yna atebwch y cwestiynau a seiliwyd arnynt.*

Ffynhonnell A

'Byddai'n beryglus iawn i ni argymell mynd i ryfel yn erbyn yr Eidal oherwydd yr argyfwng yn Abysinia. Mae'r Llynges heb ymfyddino *(is immobilised)* ac nid yw'r fflyd gartref *(home fleet)* mewn cyflwr i ryfela – does dim pwrpas mynd i ryfel gan ddibynnu ar lwc.'

[Y Llyngesydd Chatfield, arweinydd blaenllaw yn y Llynges, mewn llythyr preifat at y Cabinet (8 Awst 1935)]

Ffynhonnell B

'Rydym yn barod, mae ein fflyd yn barod yn y Môr Canoldir ac mae ein lluoedd wrth gefn wedi'u paratoi ac yn aros am alwad gennym. Ond beth y gallwn ni ei wneud pan nad yw unrhyw wlad arall wedi symud yr un llong, yr un peiriant na'r un dyn i'n helpu.'

[Syr Samuel Hoare, Ysgrifennydd Tramor Prydain, mewn araith gerbron Tŷ'r Cyffredin (Rhagfyr 1935)]

Ffynhonnell C

'A ninnau mewn cyfyng-gyngor fe ddaethpwyd o hyd i'r dyn. Ers iddo ddod i'w swydd, ni fu pall ar benderfyniad Mr Chamberlain i sicrhau heddwch yn Ewrop. Pan oedd cymylau duon rhyfel yn crynhoi'n fygythiol iawn uwchben y byd, gwnaeth y Prif Weinidog benderfyniad doeth a beiddgar. Priodol yw i ni roi iddo'r enw "Chamberlain yr heddychwr". Rhown dair hwrê i Chamberlain.'


[Rhan o sylwebaeth ffilm newyddion *(newsreel)* ar gyfer y sinema gan *Pathé News*, cwmni dan nawdd a dylanwad y Llywodraeth (21 Medi 1938)]

Ffynhonnell CH

'Rwy'n ofni fy mod i, yn wahanol i chi'r Prif Weinidog, yn dal yn amheus ynglŷn ag addewidion y Natsïaid a byddaf yn parhau felly hyd nes y caf weld gweithredoedd heddychol yn dilyn y geiriau heddychlon. Felly ni allaf wneud dim mwy nag ystyried y sefyllfa bresennol y rhoddwyd ni ynddi gennych chi, nid fel heddwch yn ein dyddiau, ond fel cadoediad anniddig *(uneasy truce)*.'

[Oliver Stanley, gweinidog yn y Cabinet, mewn llythyr preifat at Neville Chamberlain (3 Hydref 1938)]

Ffynhonnell D




[Cartŵn gan David Low ar gyfer papur newydd yr *Evening Standard*, yn sôn am bolisi tramor yr Almaen (10 Hydref 1938)]

*(a)* Cymharwch Ffynonellau C ac CH. Sut mae Ffynonellau C ac CH yn dangos safbwyntiau cyferbyniol am weithredoedd Chamberlain yn 1938? [8]

*(b)* Astudiwch Ffynonellau A a B. Pa mor ddibynadwy yw Ffynonellau A a B fel tystiolaeth i hanesydd sy'n astudio cryfder milwrol Prydain yn 1935? [16]

*(c)* Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynonellau i ddeall polisi tramor Prydain, 1929-1939? [24]
*(Yn eich ateb, fe'ch cynghorir i ddefnyddio gwybodaeth gefndirol berthnasol yn ogystal â'r wybodaeth a geir yn y ffynonellau.)*